# SL(5)614 - Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016") er mwyn estyn y cyfnod pan fo gofynion penodol wedi eu haddasu neu eu datgymhwyso.

Mae erthygl 2 yn diwygio erthygl 2G(2)(b) o Orchymyn 2012 er mwyn estyn cyfnod yr argyfwng pan fo'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio wedi eu haddasu.  Mae hefyd yn estyn cyfnod yr argyfwng at ddibenion yr amser sydd gan gynghorau cymuned i wneud sylwadau ar geisiadau yr hysbysir hwy amdanynt.  Daw cyfnod yr argyfwng i ben ar 8 Ionawr 2021.

Mae erthygl 3 yn diwygio erthygl 12(6A)(b) o Orchymyn 2016 er mwyn estyn y cyfnod pan na fo copïau caled o geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn ofynnol. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ar 8 Ionawr 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith.

Gosodwyd y Gorchymyn ar 18 Medi, a daeth i rym y diwrnod canlynol, 18 Medi. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau torri'r rheol 21

diwrnod. Rydym yn nodi'r llythyr a anfonwyd at y Llywydd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ar 10 Medi 2020. Mae hwn yn nodi:

> *"Mae'r Gorchymyn yn ceisio estyn y cyfnod pan fo'r trefniadau dros dro a gafodd eu cyflwyno gan Orchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("Gorchymyn 2020 cyntaf") yn berthnasol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.*
>
> *Cyflwynwyd y trefniadau dros dro yng Ngorchymyn 2020 cyntaf i ymdrin ag adeiladau nad oeddent yn hanfodol yn cael eu cau, a'r cyfyngiadau ar deithio nad oedd yn hanfodol, a oedd yn atal y system gynllunio rhag gweithredu'n effeithlon. Roedd y rheini i ddod i ben ar 18 Medi ond byddant yn cael eu hestyn tan 8 Ionawr 2021.*
>
> *Wrth i'r cyfyngiadau coronafeirws gael eu codi'n raddol, dylai'r angen am drefniadau dros dro fod wedi lleihau. Fodd bynnag, ein profiad ni yw, er bod y cyfyngiadau cyfreithiol wedi cael eu codi, mae llawer o adeiladau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a swyddfeydd cynghorau wedi parhau i fod ar gau neu wedi cyfyngu mynediad. O ganlyniad, mae'r angen am y darpariaethau a amlinellir yng Ngorchymyn 2020 cyntaf wedi parhau er mwyn sicrhau bod y system gynllunio'n parhau i weithio mewn modd effeithlon.*
>
> *Mae angen i'r Gorchymyn ddod i rym erbyn 18 Medi i sicrhau bod gwasanaethau cynllunio'n parhau.*
>
> *Bydd peidio â dod â'r Gorchymyn i rym ar unwaith yn arwain at ôl-groniad o geisiadau cynllunio'n aros i gael eu cyflwyno, a byddai hyn yn cael effeithiau canlyniadol ar y sector adeiladu a'r economi, a hynny ar adeg pan fydd yn bwysig gwrthdroi colledion ariannol yn gyflym er mwyn lleihau'r difrod economaidd a chymdeithasol hirdymor sy'n cael eu peri. Ystyrir bod yr angen i weithredu'n gyflym yn cyfiawnhau anwybyddu'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "oherwydd natur brys y diwygiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y cynigion hyn". Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod Memorandwm Esboniadol manwl, a pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Mae paragraff 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae angen rhoi'r diwygiad ar waith ar unwaith er mwyn estyn y mesurau lliniaru a roddwyd yn eu lle i reoli effeithiau cyfyngiadau COVID-19 o ran teithio ac agor adeiladau ar rannau penodol o'r system gynllunio. Bydd y diwygiad yn golygu bod*

*modd i ddatblygwyr barhau i gyflwyno ceisiadau cynllunio, gan atal achosion rhag cronni, a galluogi caniatâd i gael ei roi wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi."*

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Medi 2020**